

PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADNODDAU CORFFORAETHOL
20 MEDI 2018

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora Delyn, Neuadd y Sir, yr Wyddgrug, ddydd Iau 20 Medi 2018.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Clive Carver (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr: Haydn Bateman, Paul Cunningham, Patrick Heesom, Andrew Holgate, Dave Hughes, Paul Johnson, Richard Jones, Mike Lowe, Hilary McGuill, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Andy Williams ac Arnold Woolley

DIRPRWYON: Y Cynghorydd Rob Davies (ar ran Bob Connah)

CYFRANWYR: Y Cynghorydd Aaron Shotton, Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Gyllid; Y Cynghorydd Billy Mullin, Aelod Cabinet dros Reoli Corfforaethol ac Asedau; Y Cynghorydd Chris Bithell, Aelod Cabinet dros Gynllunio a Gwarchod y Cyhoedd; Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog (Llywodraethu)

Ar gyfer cofnod rhif 40

Rheolwr Gwarchod y Gymuned a Busnes; Ymgynghorydd Rhanbarthol Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol; Arweinydd Tîm Safonau Masnach; Prif Arolygydd Jon Bowcott o Heddlu Gogledd Cymru; a Ben Carter, Bwrdd Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau Gogledd Cymru

Ar gyfer cofnod rhif 42

Rheolwr Cyllid, Cyfrifeg a Systemau Strategol; a Rheolwr Cyllid Dros Dro – Cyfrifeg Technegol

HEFYD WRTH LAW: Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

36. DATGAN CYSYLLTIADAU

Dim.

37. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2018.

Nododd yr Is-Gadeirydd, y Cynghorydd Johnson, a oedd wedi cadeirio'r cyfarfod, y dylid cyfeirio ato fel 'Cadeirydd' drwy gydol y cofnodion.

Cofnod rhif 28 : Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol – Nododd y Cynghorydd Jones mai ef awgrymodd y gweithdai ar Gynnig Twf Gogledd Cymru.

PENDERFYNWYD:

Yn amodol ar y newidiadau uchod, cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

38. AMRYWIO TREFN Y RHAGLEN

Nododd y Cadeirydd y byddai newid yn y drefn i ystyried yr adroddiad Orlhain Gweithred yn syth ar ôl y Cofnodion, ac i symud y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol i ddiwedd y cyfarfod. Bydd gweddill yr eitemau yn cael eu hystyried yn y drefn a ddangosir ar y rhaglen.

39. OLRHAIN GWEITHRED

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd adroddiad yn nodi cynnydd ar bwyntiau gweithredu o gyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor. Roedd hyn yn ddull adrodd a oedd yn effeithiol ar gyfer y Pwyllgor Archwilio.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Heesom at y ceisiadau ailadroddus am gopi o'r adroddiad arolwg ar Bont Sir y Fflint a'i effaith ar 'lwybr coch' arfaethedig priffyrdd, oedd heb ei rannu hyd yma. Eglurodd y Prif Weithredwr nad oedd canfyddiadau'r adroddiad yn cyflwyno unrhyw risg ariannol i'r Cyngor a byddai'n cael ei ddsbarthu i unrhyw Aelodau sy'n mynegi diddordeb. Ni ddarparwyd unrhyw wybodaeth ar wariant cyfalaf ar gyfer y llwybr priffyrdd a mabwysiadu Pont Sir y Fflint fel rhan o rwydwaith y cefnffyrdd gan Lywodraeth Cymru a fyddai'n gwaredu unrhyw atebolrwydd ar gyfer y Cyngor yn y dyfodol. Ar Gynnig Twf Gogledd Cymru, byddai'r ddogfen gynnig ddrafft yn cael ei thrafod yn y cyfarfod rhanbarthol y diwrnod canlynol, fodd bynnag, pwysleisiodd nad oedd yr A494 yn y cynnig hwnnw ac yn rhagflaenu hynny.

Wrth groesawu'r adroddiad Orlhain Gweithred, awgrymodd y Cynghorydd Jones bod gweithredoedd yn y dyfodol yn cynnwys terfynau amser cwblhau. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y gellir datblygu'r fformat dros amser ac y byddai'r ymagwedd yn cael ei hymestyn i Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu eraill yn dilyn cyfnod prawf o chwe mis, fel y cytunwyd gan yr Arweinwyr Grŵp.

Fel diweddariad o'r drafodaeth o'r cyfarfod blaenorol, eglurodd y Prif Weithredwr y sefyllfa ffurfiol a gymerir gan y Cyngor sy'n cynnwys dwy weithred allweddol, a oedd wedi derbyn cefnogaeth yng ngweithdy'r Aelodau yn ddiweddar. Yn gyntaf, roedd y Cyngor wedi cyfrannu at achos ar y cyd a gyflwynir gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar ran holl gynghorau Cymru i LIC ar gyfer cynnydd yn y Grant Cefnogi Refeniw. Yn ogystal â hyn, byddai'r Prif Weithredwr a'r Arweinydd yn ysgrifennu at Ysgrifennydd Cabinet Cyllid i bwysleisio disgwyliadau penodol y Cyngor am isafswm o 3% o gynnydd yn y Grant Cefnogi Refeniw neu 4% o gynnydd os nad oedd cost cyflog ychwanegol athrawon yn cael ei ariannu ar wahân.

Gan fod yr Aelodau wedi derbyn copi o sylwadau ysgrifenedig am brydlondeb grantiau, awgrymodd y Cynghorydd Jones y dylai'r Pwyllgor gyflwyno ei sylwadau ei hun i LIC i dynnu sylw at gostau lleoliadau y tu allan i'r sir fel mater cenedlaethol. Siaradodd y Cynghorydd Shotton i gefnogi bod y Pwyllgor yn cyflwyno ymateb ar wahân i ategu at yr ymateb ffurfiol gan y Cabinet. Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at y trafodaethau cyllidebol sydd i ddod ac awgrymu efallai y byddai'r Pwyllgor yn dymuno cyflwyno sylwadau yn hwyrach yn y broses pan fo'r Aelodau yn fodlon bod yr holl ddewisiadau wedi'u cyflawni i gytbwysu'r gyllideb heb risg. Cefnogwyd hyn gan y Pwyllgor.

PENDERFYNWYD:

Bod y dull 'olrhain gweithred' yn cael ei gymeradwyo am gyfnod prawf o chwe mis gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol.

40. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y BARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL

Cyflwynodd Rheolwr Gwarchod y Gymuned a Busnes yr adroddiad blynyddol a oedd yn darparu trosolwg o weithgareddau'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol dros y 12 mis diwethaf ac yn adlewyrchu ar waith rhanbarthol.

Cyflwynwyd aelodau'r Pwyllgor i'r Prif Arolygydd Jon Bowcott o Heddlu Gogledd Cymru; Ben Carter o Fwrdd Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau Gogledd Cymru; Rhiannon Edwards, Ymgynghorydd Rhanbarthol Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol; a Richard Powell, Arweinydd Tîm Safonau Masnach.

Cafwyd cyflwyniad manwl ar y cyd yn ymwneud â'r meysydd canlynol:

- Cyd-destun
- Grwpiau Cyflawni Diogelwch Cymunedol
- Cyflawniadau
- Perfformiad
- Rhyngweithio gyda'r Bwrdd Cymunedau Diogelach
- Blaenoriaethau lleol ar gyfer 2018/19

Rhoddwyd eglurhad ar y gofynion statudol yn y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a'r newidiadau mewn trefniadau llywodraethu oedd wedi arwain at strwythur symlach. Ymysg y cyflawniadau roedd amseroedd aros ar gyfer gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, lle'r oedd Sir y Fflint yn perfformio'n dda. O ran rhwydweithio gyda Bwrdd Cymunedau Diogelach Gogledd Cymru, cydnabuwyd bod rhai materion yn well eu datrys ar lefel ranbarthol. Nodwyd manylion pedair blaenoriaeth leol ar gyfer 2018/19 yn yr adroddiad ynghyd â'r camau penodol a'u heffaith:

- Cam-drin domestig a Thrais Rhywiol
- Grwpiau Troseddol Cyfundrefnol
- Caethwasiaeth Fodern
- Cam-fanteisio Troseddol ar Blant

Er yr adroddwyd cynnydd mewn troseddau yn seiliedig ar ddioddefwyr ar gyfer 2017/18, Sir y Fflint oedd â'r cynnydd lleiaf yng Ngogledd Cymru. Eglurodd y Prif Arolygydd Bowcott bod y gostyngiad cenedlaethol mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol yn deillio o'r newidiadau i'r modd y cofnodir y drosedd.

Mewn ymateb i sylwadau gan y Cynghorydd McGuill, eglurodd y Prif Arolygydd Bowcott nad oedd modd rhoi adborth i aelodau'r cyhoedd sy'n rhoi gwybod am ymddygiad amheus bob tro. Rhoddodd sicrwydd y gweithredir ar unrhyw gudd-wybodaeth ond bod manylion y ffynonellau yn cael eu dileu i warchod yr unigolion hynny. Oherwydd y niferoedd uchel a alwadau y maent yn eu derbyn, roedd dulliau eraill o roi gwybod am gudd-wybodaeth nad yw'n

argyfwng yn cael eu hyrwyddo megis LiveChat neu e-bost, neu drwy gyswllt gyda Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a allai ddarparu adborth i breswylwyr.

Er mwyn cynorthwyo i reoli nifer y galwadau i'r rhif 101, awgrymodd y Cynghorydd Woolley y dylid cyflwyno neges awtomatig ar ôl pum munud i atgyfeirio'r rhai sy'n ffonio at ddulliau cyswllt eraill. Cytunodd y Prif Arolygydd Bowcott y byddai'n rhannu'r awgrym. Aeth yn ei flaen i drafod gweithrediad system ffôn newydd a fyddai'n cael ei datblygu dros amser i leihau amseroedd aros ar y ffôn.

Gofynnodd y Cynghorydd Johnson iddo rannu ei ddiolch i Gerwyn Davies (Cydlynnydd Ymddygiad Gwrthgymdeithasol) am weithio gyda'r Aelodau Lleol a chymunedau ar faterion yn y ward. Mewn ymateb i gwestiwn ar y modd y cofnodir pob math o droseddau ymddygiad gwrthgymdeithasol gyda'i gilydd, rhoddodd y Prif Arolygydd enghraifft o'r cymhlethdodau wrth gofnodi troseddau a dywedodd bod newid mewn ystadegau yn dangos gostyngiad mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol a chynnydd mewn troseddu. Dywedodd os oes mater penodol lle bo'r Cyngor angen ystadegau yn ei gylch, gellir derbyn hyn o'r system.

Holodd y Cynghorydd Heesom am y cysylltiadau gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ac am gyfleoedd i ferched ifanc gyfrannu at rai o'r blaenoriaethau lleol. Eglurodd y Rheolwr Gwarchod y Gymuned a Busnes bod y Rheolwr Cyfiawnder Ieuenctid yn aelod o Fwrdd 'Pobl yn Ddiogel' a bod rhywfaint o waith rhanbarthol ar y gweill i ddatblygu dull cyson o ran y cysylltiad gyda'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Dywedodd y Prif Weithredwr bod perfformiad Sir y Fflint ar flaenoriaethau lleol a rhanbarthol yn gryf a bod partneriaethau da rhwng y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a chydweithwyr yn y Gwasanaethau Plant. Siaradodd yr Ymgynghorydd Rhanbarthol dros Gam-drin Domestig a Thrais Rhywiol am ymgysylltiad gyda phobl ifanc i'w harfogi gyda'r dulliau i'w cynorthwyo i ddeall sut i ddatblygu perthnasoedd cadarnhaol a gwaith partneriaeth ar Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod i godi ymwybyddiaeth ymysg athrawon, Gwasanaethau Cymdeithasol ac ati.

Yn dilyn sylwadau am gyswllt gyda chynghorau tref a chymuned, cytunodd y Prif Arolygydd y byddai'n ailgyflwyno ymgynghoriadau chwarterol gyda chynrychiolwyr i ddarparu cyfle i drafod materion lleol.

Nododd y swyddogion y cais gan y Cynghorydd Jones i gael rhagor o eglurder ar y defnydd o acronymau yn yr adroddiad blynyddol nesaf. Cyflwynodd sylwadau ar y rhestr o gyflawniadau ac roedd yn teimlo y byddai'n fwy defnyddiol dangos effaith y camau gweithredu ar berfformiad. Fel un o'r prif gyflawniadau, cyfeiriodd y Prif Weithredwr at y Canolbwynt Cymorth Cynnar a oedd yn cael ei ystyried fel esiampl da yng Nghymru.

Diolchodd y Cadeirydd i'r cynrychiolwyr am eu presenoldeb.

PENDERFYNWYD:

Cefnogi Adroddiad Blynyddol y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.

41. CYNLLUN Y CYNGOR 2018/19 – NEWIDIADAU O 2017/18

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad a oedd yn crynhoi'r newidiadau i Gynllun y Cyngor a wnaed rhwng y blynyddoedd. Roedd manylion llawn y newidiadau wedi'u hatodi i'r adroddiad.

Ceisiodd y Cynghorydd Jones sicrwydd bod y mesuryddion / targedau oedd wedi'u tynnu wedi bod yn destun ystyriaeth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu perthnasol i roi cyfle iddynt asesu'r rhesymau cyn cyflwyno Cynllun terfynol y Cyngor i'r Cyngor Sir. Dywedodd bod Cynllun y Cyngor yn penderfynu sut mae arian yn cael ei wario felly roedd angen mwy o eglurder ar y newid i'r mesuryddion.

Eglurodd y Prif Weithredwr bod y manylion hyn wedi'u cynnwys yn nogfen Rhan 2 a oedd yn tanategu Cynllun y Cyngor. Dywedodd bod swm sylweddol o ddata perfformiad ar gael ac efallai y dylid ystyried bod pwyllgorau yn dewis eu meysydd penodol o ddata perfformiad i'w cynorthwyo i gyflawni eu rôl yn effeithiol fel ffordd ymlaen. Gallai hyn fod yn ganolbwynt ar gyfer gwaith yn y dyfodol gan gynnwys cyflwyno mwy o fesuryddion lleol.

Siaradodd y Cynghorydd Mullin am lefel y gwaith a wnaed i gynhyrchu'r adroddiad gydag adnoddau cyfyngedig, a nododd bod rhai newidiadau yn deillio o faterion yn dod i gasgliad naturiol.

Mewn ymateb i sylwadau'r Cynghorydd Woolley ar adnoddau cyfyngedig yn effeithio ar y gallu i gynllunio, nododd y Prif Weithredwr er bo rhai meysydd yn seiliedig ar adnoddau sy'n hysbys, roedd cynaliadwyedd eraill y tu hwnt i reolaeth y Cyngor yn fwy o risg.

Gofynnodd y Cynghorydd Jones bod eitem yn cael ei chynnwys ar raglen y cyfarfod nesaf bod y Pwyllgor yn derbyn taenlen yn dangos cysylltiadau rhwng cyllidebau, llywodraethu, perfformiad ac ati.

PENDERFYNWYD:

- (a) Bod y newidiadau i Gynllun y Cyngor rhwng 2017/18 a 2018/19 yn cael eu nodi a diolch i'r swyddogion am gynhyrchu'r dadansoddiad; a
- (b) Sicrhau bod yr ystod lawn o fesuryddion perfformiad ar gael i bob Pwyllgor Trosolwg a Chraffu perthnasol i roi cyfle iddynt ddewis meysydd adrodd rheolaidd.

42. MONITRO MIS 4 Y GYLLIDEB REFENIW 2018/19 A MONITRO CHWARTER 4 Y RHAGLEN GYFALAF 2018/19

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid (Cyfrifeg a Systemau Strategol) a'r Rheolwr Cyllid Dros Dro – Cyfrifeg Technegol adroddiad ar y cyd ar sefyllfa monitro'r gyllideb refeniw ar gyfer mis 4 2018/19 ar gyfer Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai, a diweddariad ar y Rhaglen Gyfalaf 2018/19 yn ystod mis 4. Byddai'r ddau yn cael eu hystyried gan y Cabinet ar 25 Medi 2018.

Monitro Cyllideb Refeniw

O ran Cronfa'r Cyngor, roedd y rhagolwg gwariant net gwirioneddol yn ystod y flwyddyn yn dangos £2.680m o arian dros ben a oedd yn cynnwys effaith gadarnhaol cyfraniad o £1.400m yn deillio o newid a gymeradwywyd i bolisi cyfrifo Darpariaeth Isafswm Refeniw a derbyn £1.940m ar gyfer ad-daliad TAW. Argymhellwyd y dylid dyrannu'r ddau swm i'r Gronfa Wrth Gefn arian at raid i gefnogi y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig fel rhan o'r opsiynau cyllidebol strategol a drafodwyd yng ngweithdy diweddar yr Aelodau. Byddai hyn yn gadael diffyg gweithredol o £0.660m.

Roedd y tabl yn nodi sefyllfa amcanol fesul portffolio, cyn trosglwyddo'r ddau swm uchod, gyda rhagolwg ar gyfer Lleoliadau y Tu allan i'r Sir wedi'u nodi ar linell ar wahân i ddarparu gwell eglurder. Roedd cynnydd yn erbyn yr effeithlonrwydd a gynlluniwyd yn ystod y flwyddyn yn dangos y disgwylir y byddai 98% yn cael ei gyflawni, a oedd yn uwch na'r targed. Roedd diweddiariad ar y materion eraill yn ystod y flwyddyn yn tynnu sylw at geisio swm ychwanegol o £1.084m o Gronfa Wrth Gefn Arian at raid i ddiwallu cost dyfarniad tâl a gytunwyd yn genedlaethol, yn ogystal â'r cynnydd o 1% a ddarparwyd yn y gyllideb ar gyfer 2018/19. Rhagwelwyd balans diwedd blwyddyn yn y Gronfa Wrth Gefn Arian at Raid o £8.145m er y byddai cais am £0.100m i gefnogi gwaith parhaus ar amddiffyn plant. Byddai argymhelliad bod tanwariant yng nghyllideb Ymrwymiad Lleihau Carbon yn cael ei ragnodi i gefnogi datblygiad ffermydd solar, fel yr adroddwyd i'r Cabinet yn flaenorol.

Croesawodd y Prif Weithredwr y cynnydd ar yr arbedion effeithlonrwydd ac eglurodd bod rhywfaint o ansicrwydd o ran amseriad gostyngiadau cost Neuadd y Sir oherwydd amseriad y gwaith dymchwel. Gan adlewyrchu ar drafodaeth flaenorol ar bwysigrwydd cynnal lefelau digonol yn y Gronfa Arian at Raid, cyfeiriodd at y pwysau ychwanegol ar y gyllideb o'r dyfarniad cyflog cenedlaethol a oedd yn gyfrifoldeb i'r holl gynghorau gan na chafwyd cefnogaeth ariannol gan Lywodraeth y DU na Llywodraeth Cymru hyd yn hyn.

Ar y Cyfrif Refeniw Tai, rhagamcanwyd y byddai gwariant yn ystod y flwyddyn £0.007m yn uwch na'r gyllideb, gan adael balans o £1.165m ar ddiwedd y flwyddyn sy'n uwch na'r lefel isaf a argymhellir.

Croesawodd y Cynghorydd Jones y penderfyniad i wahanu costau Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir a thynnu sylw at wall yng nghyfanswm gorwariant ar gyfer Strydwedd a Chludiant. Mewn ymateb i gwestiynau, cafwyd eglurhad ar amseru newid polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw a hysbysiad o ad-daliad TAW, a oeddent yn symiau untro heb eu dyrannu ar gyfer 2018/19 i'w dyrannu i Gronfeydd wrth Gefn Arian at Raid.

Cytunodd y Rheolwr Cyllid i ddarparu manylion pellach i'r Cynghorydd Bateman ar gost ychwanegol cerbydau gwastraff ar brydles. Cytunodd hefyd y byddai'n ymateb i gais y Cynghorydd Johnson am ragor o wybodaeth ar gostau gwasanaethau Rheoli Plâu a oedd yn anodd eu holrhain. Nodwyd y gallai hyn fod o ganlyniad i newidiadau i'r portffolio.

Darparodd y Prif Weithredwr eglurhad i'r Cadeirydd ar gostau cludiant untro ychwanegol ar ôl cau Ysgol Uwchradd John Summers.

Holodd y Cynghorydd McGuill a oedd canolfannau chwaraeon defnydd dwbl yn diwallu'r meini prawf ar gyfer ad-daliad TAW ar rai eithriadau chwaraeon. Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai hyn yn cael ei olrhain.

Rhaglen Gyfalaf

Adroddwyd cynnydd net o £8.420m yn y Rhaglen ar gyfer 2018/19 a arweiniodd at gyllideb ddiwygiedig o £76.394m. Roedd y prif newidiadau yn ystod y cyfnod yn ystyried hysbysiad o ddyraniadau cyllid nad ydynt ar gael ar adeg gosod y gyllideb, megis grant Cludiant Lleol/Diogelwch ar y Ffyrdd. Darparwyd y wybodaeth ddiweddaraf ar newid i argaeledd grant Tai Fforddiadwy a ddisodlwyd gan gefnogaeth referniw ar gyfer benthyca cyfwerth dros gyfnod o 29 mlynedd.

Roedd y wybodaeth ddiweddaraf am wariant cyfalaf o gymharu â'r gyllideb yn dangos tanwariant a ragwelir o £0.047m ar Gronfa'r Cyngor a sefyllfa o fantoli'r gyllideb ar y Cyfrif Refeniw Tai. Ar y cam hwn, ni ragwelir unrhyw newidiadau sylweddol erbyn diwedd y flwyddyn. Tynnwyd sylw hefyd at swm sy'n cael ei ddwyn ymlaen o £0.074m ar gyfer Theatr Clwyd i 2019/20 a dyraniad cyfalaf ychwanegol o £0.500m tuag at systemau awyru yn Unity House yn Ewlo cyn symud swyddfa. Roedd Tabl 5 yn dangos diffyg cyllid presennol o £8.719m ar gyfer cynlluniau a gymeradwywyd dros gyfnod o dair blynedd, nad oedd yn cynnwys derbyniadau cyfalaf heb eu rhyddhau. Fel y ceisiwyd yn y Rhybudd o Gynnig i'r Cyngor, roedd dadansoddiad yn dangos buddsoddiad mewn trefi'r sir ynghyd â nodi'r gwariant ychwanegol a ddyrannwyd yn Safon Ansawdd Tai Cymru.

Ar y mater olaf, atgoffodd y Cynghorydd Jones bod angen adrodd ar wariant referniw a chyfalaf. Eglurodd y swyddogion y byddai'r ddau yn cael eu hadolygu a'u hadrodd wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi.

Yn dilyn ymholiad gan y Cadeirydd, eglurwyd mai diben y cyllid ychwanegol ar gyfer Unity House oedd i ymgymryd â gwaith hanfodol i gefnogi math gwahanol o ddefnydd ar gyfer yr adeilad.

Mewn ymateb i ymholiad y Cynghorydd Heesom ar y dull o fenthyca darbodus ar gyfer Unity House, eglurodd y swyddogion fod hyn yn destun adolygiad parhaus ac y byddai rhyddhau unrhyw dderbyniadau cyfalaf yn cael eu gosod yn erbyn yr angen i fenthyca ac yn cael ei adrodd drwy reolaeth y trysorlys wrth iddynt ddod i ben.

PENDERFYNWYD:

- (a) Bod y Pwyllgor yn nodi'r argymhellion yn yr adroddiad Cabinet ar gyfer Monitro Mis 4 y Gyllideb Refeniw 2018/19 ac yn cadarnhau nad oes unrhyw faterion eraill y mae'n dymuno eu cyflwyno i'r Cabinet; a
- (b) Bod y Pwyllgor yn nodi adroddiad Mis 4 y Rhaglen Gyfalaf 2018/19 a chadarnhau, ar yr achlysur hwn, nad oes unrhyw faterion i'w cyflwyno gerbron y Cabinet.

43. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol bresennol i'w hystyried. Cytunwyd ar y newidiadau canlynol:

- Bod y cyfarfod ymgynghori ar y gyllideb Cam 1 a drefnwyd ar gyfer 5 Hydref 2018 ar ffurf gweithdy Aelodau yn benodol ar gyfer Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol.
- Mae'n debyg y byddai eitem Cynllun y Cyngor yn cael ei symud i gyfarfod mis Hydref.
- Mae'n debyg y byddai Adroddiad Blynyddol Cronfa Waddol Cymunedol yn cael ei symud i fis Tachwedd.
- Bod eitem ar gyfer Cynnig Twf Gogledd Cymru yn cael ei threfnu ar gyfer mis Tachwedd. Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai dogfen ddrafft y cynnig yn cael ei dosbarthu i'r holl Aelodau yn dilyn y cyfarfod rhanbarthol a oedd yn cael ei gynnal y diwrnod canlynol.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at drafodaeth yng nghyfarfod diweddar y Cyngor Sir ar Rybudd o Gynnig ar ymatebion swyddogion i'r Aelodau. Eglurodd y Prif Weithredwr y byddai adroddiad yn cael ei gynnwys ar y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ar ôl gorffen y gwaith.

PENDERFYNWYD:

- (a) Bod y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol yn cael ei chymeradwyo gyda'r diwygiadau a restrwyd uchod; a
- (b) Bod Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor, yn cael ei awdurdodi i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen.

44. AELODAU'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd na'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am 12.10pm)

.....
Y Cadeirydd